Rhif: WG43570

Llywodraeth Cymru
Ymgynghoriad – crynodeb o'r ymateb

# Ymgynghoriad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol Drafft ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref

Mehefin 2022

Mae'r ddogfen yma hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80391-404-6

## Trosolwg

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer cynghorau cymuned a thref ar ddarpariaethau sy'n ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Bydd y canllawiau'n cynorthwyo cynghorau cymuned a thref i gyflawni pwerau a dyletswyddau newydd, sy'n cynnwys:

- cymhwyster i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol
- cael mynediad at gyfarfodydd o sawl lleoliad
- darparu cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd cyhoeddus cynghorau
- cyhoeddi adroddiad blynyddol
- cyhoeddi cynllun hyfforddi i gefnogi hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff cynghorau.

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o'r ymatebion a dderbyniwyd.

## Camau i'w Cymryd

Mae'r ddogfen hon at ddibenion gwybodaeth yn unig.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Yr Is-adran Perfformiad a Phartneriaethau – Llywodraeth Leol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

E-bost: LGPartnerships@gov.wales

## Copïau ychwanegol

Mae'r crynodeb hwn o'r ymatebion a chopïau o'r holl ddogfennau ymgynghori yn cael eu cyhoeddi ar ffurf electronig yn unig a gellir eu gweld ar wefan Llywodraeth Cymru.

Dolen at y dogfennau ymgynghori: https://llyw.cymru/rheoliadau-cymwysterau-clercod-cynghorau-cymuned

# Cynnwys


Cynnwys ..... 3

Cyflwyniad – Cefndir yr ymgynghoriad ..... 4

Y broses ymgynghori ..... 4

Crynodeb o'r ymatebion ..... 5

Cwestiwn 1: Yn gyffredinol, a yw strwythur a chwmpas y canllawiau'n cael eu cyflwyno'n glir ac mewn ffordd sy'n ymarferol i gynghorau cymuned a thref? ..... 6

Cwestiwn 2: A yw Pennod 1 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar yr amodau cymhwysedd ar gyfer arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol? A yw'n glir o ran sut y dylid defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol? Pa wybodaeth ychwanegol fyddai o gymorth? ..... 6

Cwestiwn 3: Pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol i ddangos neu egluro sut y gellid cymhwyso'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i gynghorau cymuned? A oes gennych unrhyw astudiaethau achos a allai gefnogi hyn? ..... 6

Cwestiwn 4: A yw Penodau 2 a 3 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar y gofynion sy'n ymwneud â chyfarfodydd aml-leoliad a sut y gall y cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor? ..... 7

Cwestiwn 5: A yw Pennod 4 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar gyflawni'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiadau blynyddol? Pa wybodaeth benodol ychwanegol fyddai o gymorth? ..... 7

Cwestiwn 6: A yw Pennod 5 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar gyflawni'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynlluniau hyfforddi? Pa wybodaeth ychwanegol fyddai o gymorth? ..... 8

Cwestiwn 7: Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol? ..... 8

Cwestiwn 8: Eglurwch hefyd, sut rydych chi'n credu y gall y canllawiau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. ..... 9

Cwestiwn 9: Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi ..... 9

Ystyriaethau ..... 10

Y camau nesaf ..... 11

Atodiad A – Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ..... 12

## Cyflwyniad – Cefndir yr ymgynghoriad

Cafodd Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (“Deddf 2021”) ei phasio ar 20 Ionawr 2021 ac mae’n darparu ar gyfer sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd a diwygiedig ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad llywodraeth leol. Mae’r ddeddfwriaeth yn effeithio ar y sector cynghorau cymuned a thref.

Mae Deddf 2021 yn rhoi pŵer cymhwysedd cyffredinol i awdurdodau lleol cymwys, gan gynnwys cynghorau cymuned cymwys. Mae’r canllawiau hyn yn helpu cynghorau cymuned a thref i ystyried y gofynion os ydynt yn dymuno dod yn gynghorau cymuned cymwys.

Mae’r canllawiau hyn hefyd yn darparu gwybodaeth i helpu pob cyngor cymuned i gyflawni ei ddyletswyddau newydd mewn perthynas â’r gofynion canlynol:

- cael mynediad at gyfarfodydd o sawl lleoliad
- darparu cyfleoedd i’r cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd cyhoeddus cynghorau
- paratoi a chyhoeddi adroddiad blynyddol
- paratoi a chyhoeddi cynllun hyfforddi i gefnogi hyfforddiant ar gyfer cynghorwyr a staff cynghorau
- darpariaethau eraill sy’n effeithio ar gynghorau cymuned a thref.

Cafodd Canllawiau statudol drafft eu paratoi i helpu cynghorau cymuned a thref i roi Deddf 2021 ar waith. Roedd yr ymgynghoriad yn gyfle i randdeiliaid roi mewnbwn a gwybodaeth am y canllawiau statudol.
Rhaid i gynghorau roi sylw dyledus i fersiwn derfynol y canllawiau hyn wrth gyflawni eu gweithgareddau.

### Y broses ymgynghori

Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar y canllawiau statudol drafft ar gyfer cynghorau cymuned a thref ar Ddeddf 2021. Roedd yr ymgynghoriad yn agored ar gyfer ymatebion rhwng 17 Rhagfyr 2021 a 17 Mawrth 2021.

Darparwyd fersiynau ar-lein o’r ddogfen ymgynghori ffurfiol a’r rheoliadau drafft yn y Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan Llywodraeth Cymru. Anfonwyd y ddolen i’r ymgynghoriad at bob cyngor tref a chymuned yng Nghymru yn ogystal ag amrywiaeth o randdeiliaid eraill.

### Ymatebion a ddaeth i law

Cafwyd cyfanswm o 41 o ymatebion erbyn y dyddiad cau. Ni chafwyd unrhyw ymatebion pellach ar ôl y dyddiad cau.

Derbyniwyd ymatebion fel a ganlyn:

- 34 o ymatebion o’r sector cynghorau cymuned a thref
- 3 ymateb gan gyrff archwilio/arolygu/rheoleiddwyr/comisiynwyr
- 1 ymateb gan gyrff cynrychioli, cyrff proffesiynol neu gymdeithasau
- 2 ymateb gan aelodau o’r cyhoedd
- 1 ymateb dienw

**Crynodeb o’r ymatebion**

Bwriedir i’r ddogfen hon fod yn grynodeb o’r ymatebion a dderbyniwyd. Nid yw’n ceisio nodi’n fanwl bob pwynt a godwyd gan ymatebwyr.

Gofynnwyd naw cwestiwn yn y ddogfen ymgynghori a chrynhoir yr ymatebion i bob un isod.

Ni chafodd pob cwestiwn ei ateb gan bob ymatebydd a rhoddodd rhai ymateb cyffredinol i’r ymgynghoriad yn hytrach nag ateb cwestiynau penodol. Os felly, rydym wedi cynnwys eu hymateb o dan y cwestiwn mwyaf priodol neu wedi’i gynnwys yn y crynodeb o’r ymatebion i gwestiwn naw.

**Cwestiwn 1: Yn gyffredinol, a yw strwythur a chwmpas y canllawiau'n cael eu cyflwyno'n glir ac mewn ffordd sy'n ymarferol i gynghorau cymuned a thref?**

Cafwyd 31 ymateb uniongyrchol, ydy / nac ydy, i'r cwestiwn hwn, ac roedd 30 yn cytuno bod strwythur a chwmpas y canllawiau'n cael eu cyflwyno'n glir ac mewn ffordd sy'n ymarferol i gynghorau cymuned a thref. Ategwyd y rhain gydag awgrymiadau i rifo'r paragraffau er mwyn gwella cywirdeb y cyfeiriadau at y canllawiau. Mae hyn wedi cael ei adlewyrchu yn fersiwn derfynol y canllawiau statudol.

**Cwestiwn 2: A yw Pennod 1 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar yr amodau cymhwysedd ar gyfer arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol? A yw'n glir o ran sut y dylid defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol? Pa wybodaeth ychwanegol fyddai o gymorth?**

Cafwyd 26 o ymatebion uniongyrchol ydy/nac ydy i'r cwestiwn hwn, gyda 23 yn cytuno ac 3 yn anghytuno. Nid oedd 15 o ymatebion yn mynegi barn.

Y sylwadau allweddol ar gyfer gwella'r bennod oedd:

- Ei gwneud yn gliriach pa bryd y gellid defnyddio'r pŵer cyffredinol lle nad oes angen cwmni masnachu a pha bryd y caiff ei ddefnyddio at ddiben masnachol – ac felly mae angen cwmni masnachu;
- Egluro a yw cyngor cymuned yn datgan cymhwysedd neu ei fod yn gymwys i ddefnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol;
- Darparu mwy o fanylion am y gwahaniaeth rhwng y pŵer cymhwysedd cyffredinol a'r pŵer cyffredinol dan adran 137 Deddf Llywodraeth Leol 1972;
- Egluro beth sy'n digwydd i gymhwysedd pan nad yw un o'r amodau'n cael ei fodloni mwyach, e.e. pan fydd clerc cymwys CiLCA yn gadael y cyngor;
- Darparu eglurder ynghylch effeithiau creu cwmni masnachu i arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol at ddiben masnachol;
- Darparu enghreifftiau o astudiaethau achos lle y defnyddiwyd y pŵer cymhwysedd cyffredinol.

**Cwestiwn 3: Pa wybodaeth ychwanegol fyddai'n ddefnyddiol i ddangos neu egluro sut y gellid cymhwyso'r pŵer cymhwysedd cyffredinol i gynghorau cymuned? A oes gennych unrhyw astudiaethau achos a allai gefnogi hyn?**

Roedd un ymateb i'r cwestiwn hwn yn awgrymu defnyddio enghreifftiau o gynghorau plwyf Lloegr, efallai gan NALC (Cymdeithas Genedlaethol Cynghorau Lleol). Awgrymodd ymateb arall y dylid ei gwneud yn gliriach pa bwerau neu hyblygrwydd ychwanegol oedd ar gael i gyngor cymuned cymwys.

**Cwestiwn 4: A yw Penodau 2 a 3 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar y gofynion sy'n ymwneud â chyfarfodydd aml-leoliad a sut y gall y cyhoedd gymryd rhan yng nghyfarfodydd y cyngor?**

O'r 22 o ymatebion o sylwedd i'r cwestiwn hwn, roedd 21 yn cytuno bod digon o ganllawiau wedi'u darparu ac roedd un yn anghytuno. Cafwyd nifer o awgrymiadau ar gyfer manylion ychwanegol a sylwadau eraill a godwyd mewn perthynas â'r cwestiynau hyn. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Byddai'n ddefnyddiol pwysleisio bod y darpariaethau hyn yn berthnasol i bob cyngor cymuned a thref;
- Nodwyd nad oedd unrhyw wybodaeth yn ymwneud â chynnal cyfarfodydd dwyieithog, a darparwyd dolenni i ganllawiau gan Gomisiynydd y Gymraeg;
- Awgrymwyd y dylid rhoi mwy o bwyslais ar y gofyniad sylfaenol bod pobl yn gallu clywed a chael eu clywed;
- Awgrymwyd y dylid aileirio'r canllawiau fel bod aelodau o'r cyhoedd yn gorfod gofyn am ganiatâd arbennig i siarad, yn hytrach na bod ganddynt hawl i siarad ar eitemau busnes. Roedd pryderon ychwanegol ynghylch rheoli ymddygiad aelodau o'r cyhoedd mewn rhai achosion.

Cafwyd sylwadau eraill yn mynegi pryder nad yw pob cyngor yn gallu cynnal cyfarfodydd rhithwir neu hybrid yn y lleoliadau lle cynhelir cyfarfodydd eu cyngor. Cafwyd nifer fach o geisiadau am gyllid i alluogi cynghorau i gael yr offer a/neu'r hyfforddiant i gefnogi cynghorau i gwrdd â'r gofyniad cyfreithiol.

**Cwestiwn 5: A yw Pennod 4 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar gyflawni'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi adroddiadau blynyddol? Pa wybodaeth benodol ychwanegol fyddai o gymorth?**

Ymatebodd cyfanswm o 22 o ymatebwyr yn uniongyrchol i'r cwestiwn hwn. Roedd 20 o ymatebion yn cytuno bod Pennod 4 yn darparu arweiniad digonol a phriodol ac roedd dau ymateb yn anghytuno.

Roedd sylwadau ac awgrymiadau penodol ynghylch canllawiau ar adrodd blynyddol yn cynnwys:

- Gwneud yn fwy eglur y gellir cyfuno gofynion adrodd, e.e. gyda'r ddyletswydd bioamrywiaeth
- Y bydd y pecyn cyllid a llywodraethu sydd wedi'i gynllunio ar gyfer cynghorau cymuned a thref yn cefnogi cynghorau i ddatblygu eu hadroddiadau blynyddol; a
- Bod cynghorau cymuned sydd wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg wedi ymrwymo i gyhoeddi eu hadroddiad blynyddol yn ddwyieithog, ac y dylid annog cynghorau cymuned heb gynllun o'r fath i wneud hynny.

**Cwestiwn 6: A yw Pennod 5 yn darparu canllawiau digonol a phriodol ar gyflawni'r ddyletswydd i baratoi a chyhoeddi cynlluniau hyfforddi? Pa wybodaeth ychwanegol fyddai o gymorth?**

Cafwyd 25 o ymatebion i'r cwestiwn hwn: Cytunodd 22 fod y canllawiau drafft yn ddigonol a theimlai tri bod angen mwy. Roedd sylwadau ac awgrymiadau ar y bennod hon yn cynnwys:

- Byddai'n ddefnyddiol egluro ai'r diben yw sicrhau bod gan bob cynghorydd a swyddog sgiliau digonol neu fod gan y cyngor cyfan sgiliau digonol;
- Cadarnhad y dylai pob cynghorydd fynychu'r meysydd hyfforddi a restrir h.y. hyfforddiant cynefino sylfaenol, hyfforddiant ar y cod ymddygiad a rheolaeth ariannol a llywodraethu;
- Cais am dempled o gynllun hyfforddi;
- Cadarnhad bod pob math o hyfforddiant yn cael ei gydnabod yn y cynllun, e.e. mentora; a
- Sylw a oedd yn anghytuno y dylai cynghorau ysgwyddo cost yr hyfforddiant.

**Cwestiwn 7: Hoffem wybod eich barn am yr effaith y byddai'r canllawiau hyn yn eu cael ar y Gymraeg, yn benodol ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Beth fyddai'r effeithiau, yn eich barn chi? Sut y byddai modd cynyddu'r effeithiau cadarnhaol, neu liniaru'r effeithiau negyddol?**

Roedd Cwestiwn 7 yn rhoi cyfle i godi unrhyw faterion a chyfleoedd i gefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg mewn perthynas â chanllawiau ar Ddeddf 2021 ar gyfer cynghorau cymuned a thref. Derbyniwyd y sylwadau canlynol:

- Nododd Comisiynydd y Gymraeg nad yw'r canllawiau'n cyfeirio'n benodol at y Gymraeg, ac o'r herwydd maent yn colli cyfle i hybu'r Gymraeg, i atgoffa cynghorau bod statws cyfartal i'r Gymraeg â'r Saesneg, a chefnogi cynghorau i'w defnyddio.
- Awgrymodd un ymateb y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu cymorth ariannol i gynghorau cymuned a thref i ddarparu gwasanaethau cyfieithu. Maent hefyd yn awgrymu y dylai fod yn ofynnol i ddarparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ym mhob un o gyfarfodydd y cyngor os yw cynghorydd yn dymuno siarad Cymraeg mewn cyfarfodydd. Yn yr un modd, maent yn awgrymu os yw aelod o'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg, mewn ardal lle mae cyfran sylweddol o'r etholwyr yn siarad Cymraeg, y dylid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd;
- Bod angen darparu arweiniad ar sut i gefnogi cyfieithu ar y pryd mewn cyfarfodydd aml-leoliad;
- Roedd cwestiwn ynghylch a yw CiLCA yn cael ei ddarparu drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd cwestiwn tebyg ynghylch a allai Cymdeithas Clercod Cynghorau Lleol sicrhau dealltwriaeth clercod o statws a sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru.

- Roedd un ymateb yn teimlo bod cefnogi'r Gymraeg, e.e. drwy bapurau, agendâu a chofnodion dwyieithog, yn gostus ac y dylai disgwyliadau fod yn isel iawn.

**Cwestiwn 8: Eglurwch hefyd, sut rydych chi'n credu y gall y canllawiau arfaethedig gael eu llunio neu eu haddasu er mwyn cael effeithiau positif neu gynyddu effeithiau positif ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg; a pheidio â chael effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.**

Nid oedd unrhyw sylwadau newydd o sylwedd i'r cwestiwn hwn. Darparwyd sylwadau ynglŷn â chefnogi a hyrwyddo'r Gymraeg, a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau andwyol ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, yn y cwestiwn blaenorol.

**Cwestiwn 9: Os oes gennych unrhyw faterion cysylltiedig nad ydym wedi mynd i'r afael â hwy yn benodol, defnyddiwch y lle hwn i'w nodi**

Roedd y cwestiwn hwn yn rhoi cyfle i ymatebwyr ddarparu sylwadau ar y canllawiau statudol drafft na roddwyd sylw iddynt mewn cwestiynau blaenorol. Cafwyd dwy set sylweddol o sylwadau.

Roedd y sylw cyntaf gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Roeddent yn argymell newidiadau ychwanegol i'r disgwyliadau ar gyfer yr hyn y dylid ei gynnwys mewn adroddiadau blynyddol, yn benodol:

- Nifer y cwynion a godwyd am yr aelodau perthnasol;
- Â beth yr oedd y cwynion hyn yn ymwneud; a
- Canlyniadau'r cwynion hyn (gan gynnwys faint a gafodd eu datrys yn lleol).

Awgrymodd yr Ombwdsmon mai manteision hyn fyddai gwella ymwybyddiaeth o safonau ymddygiad busnes cyhoeddus mewn cynghorau cymuned a thref a'u tryloywder, yn ogystal â lleihau nifer y cwynion lefel isel sy'n cael eu codi yn y lleoliadau hynny. Darparodd yr Ombwdsmon hefyd ddolen at ganllawiau wedi'u diweddaru ar god ymddygiad aelodau cynghorau cymuned a thref.

Yr oedd yr ail sylw yn un ehangach a oedd yn gofyn am gymorth i bobl â dyslecsia sy'n dymuno gwasanaethu mewn bywyd cyhoeddus.

## Ystyriaethau

Mae Llywodraeth Cymru yn gwerthfawrogi'r holl ymatebion a gafwyd i'r ymgynghoriad. Er na fydd yr adroddiad hwn yn darparu ymateb i bob un o'r materion a godwyd, mae'r ymatebion wedi cael eu hystyried yn ofalus.

Nodir bod mwyafrif helaeth yr ymatebion sylweddol i'r ymgynghoriad yn cefnogi cynnwys, fformat a strwythur y canllawiau. Cafwyd nifer o sylwadau ac awgrymiadau i wella'r canllawiau ac mae'r rhain wedi cael eu defnyddio i wella'r ddogfen. Er enghraifft, cafwyd ceisiadau i ddarparu enghreifftiau ac astudiaethau achos o sut y gellid defnyddio'r pŵer cymhwysedd cyffredinol, neu sut y cafodd ei ddefnyddio. Cafwyd nifer o sylwadau yn gofyn i'r canllawiau egluro a chadarnhau pwyntiau fel, er enghraifft, y gellir cyfuno'r gofynion adrodd blynyddol ar gynghorau cymuned, a bod y gofyniad am gyfarfodydd aml-leoliad yn berthnasol i bob cyngor.

Darparwyd rhai sylwadau sy'n mynd y tu hwnt i gwmpas y canllawiau statudol. Bwriad y canllawiau yw helpu cynghorau cymuned i roi Deddf 2021 ar waith ac nid mater i'r canllawiau yw diwygio Deddf 2021 nac ystyried materion anneddfwriaethol y tu allan i Ddeddf 2021. Fodd bynnag, yr oeddent yn ymwneud â materion pwysig ac ymdrinnir â hwy isod yn hytrach na'r canllawiau statudol.

Mynegodd rhai cynghorau bryder ynghylch y gofyniad i gefnogi cyfarfodydd aml-leoliad. Roedd y pryderon yn cynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i, gost prynu offer i alluogi cyfarfodydd hybrid, cost gosod band eang yn eu lleoliad cyfarfod, nad y cyngor sy'n berchen ar bob lleoliad cyfarfod, yr hyfforddiant i glercod i gefnogi cyfarfodydd hybrid, a'r ffaith ei bod yn well gan rai pobl gael cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Mae'r canllawiau'n adlewyrchu gofynion y ddyletswydd ac yn atgoffa cynghorau o'r gofyniad sylfaenol y gall y rhai sy'n bresennol glywed y cyfarfod a chael eu clywed ynddo. Yn fwy cyffredinol, mae'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol wedi cytuno bod angen gwerthuso capasiti a gallu digidol y sector i asesu pa gymorth sydd ei angen i fodloni'r darpariaethau hyn. Bydd y Prif Swyddog Digidol ar gyfer Llywodraeth Leol yn cynnal adolygiad cyflym o barodrwydd digidol yn dilyn etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022.

Nododd Comisiynydd y Gymraeg bod gwaith wedi ei gwblhau i sicrhau bod y cwrs Tystysgrif mewn Gweinyddiaeth Cyngor Lleol (CiLCA) ar gael i'w gwblhau yn Gymraeg ac yn Saesneg. CiLCA yw'r cymhwyster sylfaenol sy'n ofynnol gan glercod er mwyn i'w cyngor cymuned allu bodloni un o'r amodau er mwyn arfer y pŵer cymhwysedd cyffredinol. Bu iddynt hefyd annog Llywodraeth Cymru i drafod â'r SLCC sut i sicrhau dealltwriaeth clercod o statws a sefyllfa'r Gymraeg yng Nghymru. Mae cwrs CiLCA yn cynnwys eitemau ar ddeall y gofynion ar gyfer y Gymraeg, megis, sicrhau bod dogfennau clercod yn adlewyrchu dealltwriaeth briodol o Ddeddf yr Iaith Gymraeg a bod yn rhaid bodloni gofynion sy'n ymwneud â'r iaith Gymraeg ym mhenderfyniadau cynghorau. Byddwn yn gweithio gyda'r SLCC i annog y rhwydwaith ehangach o glercod i ddeall statws a sefyllfa'r Gymraeg, megis drwy'r Pecyn Cymorth Cyllid a Llywodraethu ar gyfer Cynghorau Cymuned a Thref.

Cafwyd rhai ceisiadau am dempled ar gyfer cynlluniau hyfforddi ac adroddiadau blynyddol. Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod y bydd fformat a maint angenrheidiol adroddiadau blynyddol yn amrywio'n sylweddol rhwng cynghorau a

bod darparu templedi ar gyfer y sector cyfan yn annhebygol o fod yn ddefnyddiol. Yn hytrach, mae canllawiau wedi cael eu darparu ar gynnwys y cynhyrchion hyn. Rydym am annog cynghorau cymuned i fod yn greadigol ac yn gymesur yn eu hagwedd at y rhain. Credwn y daw'r cyngor gorau o'r sector, e.e. gan gynghorau cymuned tebyg eraill neu Un Llais Cymru.

Codwyd pwynt pwysig ynglŷn â chefnogi'r rhai sydd â dyslecsia i gael mynediad at swydd gyhoeddus. Tybiwyd bod hyn yn cynnwys pobl eraill a allai fod dan anfantais gan gymdeithas wrth geisio swydd etholedig. Mae Cronfa Mynediad i Swydd Etholedig Cymru yn bodoli i helpu pobl anabl sydd eisiau sefyll am swydd etholedig gyda'r costau ychwanegol sy'n gysylltiedig â nam sy'n eu rhwystro rhag cymryd rhan mewn gwleidyddiaeth. Fe'i gweinyddir gan Anabledd Cymru ac mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Cynhaliwyd cynllun peilot i ariannu addasiadau rhesymol a chefnogaeth i ymgeiswyr anabl a oedd yn ceisio cael eu hethol i etholiadau Senedd Cymru 2021 ac yn etholiadau Llywodraeth Leol 2022. Byddwn yn pwyso a mesur y canlyniadau cyn cymryd camau pellach.

## Y camau nesaf

Mae nifer o ddiwygiadau wedi'u gwneud i'r canllawiau statudol drafft er mwyn ystyried y sylwadau defnyddiol iawn o'r ymgynghoriad. Mae'r canllawiau statudol terfynol bellach wedi cael eu paratoi a'u cyhoeddi.

Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid yn Un Llais Cymru a SLCC i ddarparu cymorth i'r sector ar gyfer newidiadau sy'n deillio o Ddeddf 2021 i sicrhau gweithredu addas.

## Atodiad A – Rhestr o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad

### Sector Cynghorau Cymuned a Thref

34 cyflwyniad*

* Mae hyn yn adlewyrchu nifer y cyflwyniadau a ddaeth o'r sector cynghorau cymuned.  Nid oedd yn glir o lawer o'r ymatebion a oedd yr ymateb yn un unigol, personol gan glerc neu gynghorydd, neu'n ymateb ffurfiol ar ran cyngor.  Yn ogystal, derbyniwyd mwy nag un ymateb gan rai cynghorau, naill ai gan ddau gynghorydd neu gan y cyngor ac ymateb ar wahân gan y clerc.

### Cyrff archwilio/arolygu/rheoleiddwyr/comisiynwyr

Archwilio Cymru
Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
Comisiynydd y Gymraeg

### Cyrff cynrychioli, cyrff proffesiynol neu gymdeithasau

Un Llais Cymru

### Aelodau o'r cyhoedd

2 gyflwyniad

### Dienw

1 cyflwyniad